Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 24 Ebrill 2018

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts (Is-gadeirydd), A. Jones, S. Edwards, G. Parry, H. Huws, G. C. Jones, Meirion Jones E. Parry, Merfyn Jones, A. Williams,
D. Owen (Clerc),

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
1.1	D. Jones, R. Williams (Cynghorwr Sir)		
1.2	A. M yn nodi mai hon bydd ei gyfarfod diwethaf fel cadeirydd a bydd J. Roberts wedi bod yn aelod o'r Cyngor Bro ers 48 mlynedd y flwyddyn yma.		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb		
3.0	**Cyfrifon Mis Ebrill 2018**		
3.1	Nodwyd A. Mummery fod wedi derbyn ymholiad gan Glwb Clytwaith ar gyfer defnyddio'r Neuadd Goffa		
3.2	Y Fynwent - Clerc a G. Parry i gyfarfod ar safle cyn cyfarfod nesaf Pwyllgor Fynwent i ddiweddaru'r archebion		
3.3	A. Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio, derbyniwyd y rhain fel rhai cywir	**D. Owen**	
4.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
4.1	G. C. Jones yn nodi bod dim cyfarfod Unllais na Fforwm Cyswllt wedi bod yn ystod y mis diwethaf. Mae hefyd yn nodi bod cyfarfodydd gyda Horizon ac am Beilonau ar wahân wedi trefnu am 26 Ebrill 2018		
4.2	Meirion Jones yn nodi bod adroddiadau wedi paratoi gan y Cyngor Sir am y llifogydd yn Nhachwedd. Nodwyd bod y Cynghorwyr Sirol am gyfarfod gyda thrigolion oherwydd pryderon am yr adroddiadau.		
4.3	Meirion Jones yn nodi bod y Grid Cenedlaethol yn osgoi ymateb i ohebiaeth ffurfiol gan y Cyngor Sir ynglŷn â phryderon am eu bwriadau.		
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 27 Mawrth 2018**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
6.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
6.1	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach i adroddiad S. Edwards yn Chwefror		
6.2	Cloc - A. Mummery yn nodi bod canmoliaeth i'r gwaith. Hefyd yn nodi bod angen rhywbeth i ddal torchau a chynnig efallai fod yn fater i Bwyllgor Amgylchedd ac Eiddo i edrych arno.		
6.3	Gwelliannau Pentrefol a sefydliad cymunedol - A. Williams yn cynnig rhoi gwahoddiad i Aled o grŵp Ffrindiau'r Parc a'r Gors i gyfarfod Pwyllgor Meysydd Chwarae gan fod angen cadarnhad o'i bwriadau. S. Edwards am wneud ymholiadau gydag o. Angen trefnu cyfarfod cyhoeddus wedi cael cadarnhad.	**S. Edwards**	
6.4	Ymgyrch codi arian Neuadd Goffa - Dim diweddariad pellach ar ôl cyfarfod Mawrth	**A. Mummery**	
6.5	DBS - Clerc i weithredu. Nodwyd bod Adran Addysg neu Hamdden y Cyngor Sir yn gallu cymhorthi gyda cheisiadau.	**D. Owen**	**29/05/18**
6.6	Siarter Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned - J. Roberts yn nodi ei fod wedi darllen y siarter ac mae i weld yn dderbyniol yn amodol ar sylwadau mae wedi gwneud yn y drafft.		
6.7	Portal Cynllunio - Meirion yn nodi ei fod wedi trafod gyda Dewi Francis Jones syn yr Adran Gynllunio ac mae wedi cadarnhau ni fydd y system yn fyw ar y 01 Ebrill 2018 ond yn gobeithio y bydd yn fuan.		
6.8	Cais grant First Hydro - Nodwyd fod y cais wedi gwrthod, S. Edwards i ail edrych ar y meini prawf a ddilyn fyny gyda nhw.	**S. Edwards**	**29/05/18**

6.9	Ffens arfaethedig rownd y cae pêl droed - A. Williams am edrych am brisiau ar gyfer camerâu CCTV yn y Gors a Steven am edrych am brisiau ar gyfer ffens a byrddau hysbysebu o gwmpas y cae.	**A. Williams a S. Edwards**	**29/05/18**
6.10	Penodi Archwiliwr Mewnol - Clerc i gael pris gan Gyngor Gwynedd	**D. Owen**	**29/05/18**
7.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
7.1	31C448/TPO Cais i wneud gwaith ar goed Sycamorwydden a warchodir gan Orchymyn Diogelu Coed yn Column Cottage, Llanfairpwll - Dim sylw		
7.2	Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Siglan Farm, Ffordd Penmynydd - Dim sylw		
8.0	**Gohebiaeth**		
8.1	Llythyr Seindorf Beaumaris - J. Roberts yn cynnig £75 o rodd tuag at eu trip, E. Parry yn eilio, cytunwyd i'r cynnig.		
8.2	Llythyr First Hydro - S. Edwards am weithredu fel nodyn ynghynt		
9.0	**Materion Brys**		
9.1	A. Mummery yn argymell fel rhywbeth i ystyried i'r Cyngor Bro fod yn y dyfodol fod Cadeirydd y Cyngor Bro a Chadeirydd y Pwyllgorau yn cyfarfod o dro i dro i sefydlu rhaglen waith i'r Cyngor Bro. Merfyn yn nodi efallai fyddai 'Rhaglen Waith' yn cael ei rhoi ar Raglen pob Pwyllgor a bod y Cyngor Bro wedyn yn penderfynu gweithredu ar yr argymhellion.		
9.2	Meirion Jones yn nodi bod cwynion wedi derbyn am gyflwr Lôn Refail		
9.3	Meirion Jones yn nodi does dim diweddariad ar gais cynllunio'r safle teithwyr arfaethedig		
9.4	G. Parry yn nodi fod un o'r swing wedi torri. G. C. Jones am gadarnhau i D. Owen ble i gael deunyddiau ac wedyn i ofyn i Andre Le Cras i weithredu.		
9.5	A. Williams yn nodi ei fod wedi cael cwynion am y teiars. Cytunwyd i D. Owen a G. Parry cael golwg arnynt pan fydd yn cyfarfod ar y safle.	**G. Parry a D. Owen**	
9.6	S. Edwards yn nodi ei fod wedi sylwi fod ceir yn gyrru yn gyflym lawr Lon Refail a bod nifer o ddamweiniau. Cytunwyd i'r Clerc ddrafftio llythyr at yr Heddlu a CSYM ynglŷn â'r sefyllfa.	**D. Owen**	**29/05/18**
9.7	Seddi Gwag - Clerc i gael rhybuddion swyddogol, S. Edwards am baratoi posteri i fynd gyda nhw	**D. Owen a S. Edwards**	**29/05/18**
9.8	A. Mummery yn nodi bod bore coffi yn cael ei gynnal i lansio canolfan Penmynydd		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 29 Mai 2018 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad